# Adroddiad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod**: | 8fed Chwefror 2022 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cyng. Gareth Thomas |
| **Swyddog Cyswllt**: | Llŷr B Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned |
| **Adran / Gwasanaeth**: | Economi a Chymuned |
| **Teitl yr Eitem** | Datblygu Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 yn nodi gweledigaeth y Cyngor sef '*cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu Cymuned, mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi'*.

1.2 Yn ystod 2019, penderfynodd Cabinet y Cyngor sefydlu Bwrdd Adfywio i gymryd agwedd trawsffurfiol i'r maes adfywio cymunedau. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Arweinydd y Cyngor ac yn cynnwys Aelodau Cabinet ar gyfer Economi, Amgylchedd, Eiddo a Thai, Priffyrdd a'r Iaith Gymraeg ac yn cael ei gefnogi gan swyddogion o'r Adrannau perthnasol.

1.3 Diffiniwyd 'Adfywio' gan y Bwrdd fel 'ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol' er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg'.

1.4 O ystyried y diffiniad, gwelwyd felly fod nifer o swyddogaethau a Gwasanaethau ar draws y Cyngor; ynghyd ag ystod eang o sefydliadau a mudiadau lleol yn cyfrannu at adfywio. Er mwyn gwireddu uchelgais y Bwrdd Adfywio, cefnogwyd y bwriad o ddatblygu Fframwaith Adfywio Newydd ar gyfer Gwynedd.

1.5 Yn ystod 2020 bu'n rhaid oedi ar y gwaith oherwydd pandemig COVID-19. Er bod ansicrwydd yn parhau ynghylch sefyllfa'r pandemig, mae gwaith ar y Fframwaith wedi ail-gychwyn yn ystod 2020/21. Yn wir, mae effaith tymor byr y pandemig wedi ei deimlo gan gymunedau ar draws Gwynedd, ac mae'n bosib fod yr angen am Fframwaith Adfywio yn fwy nag erioed.

## 2. PAM BOD ANGEN CRAFFU?

2.1 Mae rhaglen wedi ei pharatoi ar gyfer datblygu'r Fframwaith Adfywio arfaethedig. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu cyfeiriad y Fframwaith arfaethedig, a'r camau sydd wedi gwneud yn ystod Cyfnod 1 (Gosod y Sylfeini).

## 3. SIAPIO'R FFRAMWAITH ADFYWIO ARFAETHEDIG

3.1 Wrth geisio datblygu sylfaen i'r Fframwaith Adfywio arfaethedig, bu'n ofynnol rhoi sylw i ystod eang o ffactorau ac ystyriaethau.

a) Ffynonellau Ddylanwad

3.2 Fel rhan o'r gwaith rhagbaratoi cychwynnol, bu i'r Bwrdd Adfywio ystyried gwahanol fodelau economaidd, ynghyd â modelau adfywio cymunedol sydd yn cael eu datblygu mewn ardaloedd eraill. Yn hyn o beth, amlygwyd perthnasedd nifer o 'yrwyr' gan gynnwys model Hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy (y pedwar piler, saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio); y Model Toesen (canfod "y gofod diogel a chyfiawn" rhwng y nenfwd amgylcheddol a'r llawr cymdeithasol); a'r model Adeiladu Cyfoeth Cymunedol gan Ganolfan Astudiaethau Economïau Lleol (CLES). Wrth ymgymryd â'r gwaith cychwynnol, amlygwyd hefyd bwysigrwydd yr argyfwng hinsawdd.

3.3 Yn fwy diweddar, mae hefyd pryderon am effaith COVID-19 ar drigolion a chymunedau. Yn hyn o beth gellir dadlau fod yr angen am Fframwaith Adfywio gyfredol yn fwy nag erioed.


3.4 Yn sgil yr uchod, cytunwyd y byddai'r Fframwaith Adfywio yn rhoi sylw penodol i ddatblygu a chefnogi cymunedau byw, cynaliadwy, iach a hyfyw, gyda'r hyder ac uchelgais i wneud y gorau o gyfleoedd newydd a chyfrannu at ddatrysiadau lleol.

b) Daearyddiaeth ac agweddau gofodol

3.4 Wrth ystyried pwrpas a chyfloedd o ddatblygu fframwaith o'r fath, death yn amlwg y byddai angen ei datblygu mewn dwy prif ran sef

- **Rhan A : Fframwaith Sirol**
  Yn gosod cyd-destun, cyfeiriad, trefniadau, (ac o safbwynt Cyngor Gwynedd blaenoriaethau corfforaethol)
- **Rhan B : Cynlluniau Ardaloedd Lleol**
  Cynllun adfywio ar gyfer ardaloedd lleol yn cyfleu blaenoriaethau lleol

3.5 Wrth geisio adnabod ardaloedd neu gymunedau lleol edrychwyd ar ddaearyddiaeth y sir. Fel man cychwyn, edrychwyd ar yr ardaloedd llesiant, ond ystyriwyd fod ambell ardal yn rhy fawr yng nghyd-destun adfywio cymunedol lleol. Drwy'r gwaith yma, cafodd 13 o ardaloedd adfywio lleol eu hadnabod sydd wedi eu cynnwys yn y map isod.



*Ardaloedd y Fframwaith Adfywio 1*

3.6 Byddai datblygu cyfres o gynlluniau adfywio lleol yn fodd o amlygu nodweddion a blaenoriaethau lleol, a chynnig cyfle i gyd-weithio gyda sefydliadau lleol. Rhan allweddol a chanolog i ddatblygu'r cynlluniau adfywio lleol fyddai trefniadau ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn canfod dyheadau lleol am ddatblygiad eu hardaloedd.

c) Trefniadau ar gyfer Datblygu Cynlluniau Adfywio Lleol

3.7 Yn 2021, penodwyd Ymgynghoriaeth Burum a'i gymdeithion i gefnogi gydag elfennau o'r gwaith rhagbaratoi - gan gynnwys dadansoddi'r ffynonellau data ar lefel lleol, ac ystyried trefniadau gwaith ymgysylltu cymunedol.

3.8 Fel rhan o'r gwaith yma, ystyriwyd yr angen i ddatblygu trefniadau ymgysylltu effeithiol fyddai'n cynnig sylfaen ar gyfer datblygu cynlluniau adfywio lleol. Mae pwyslais ar gyfranogiad y cyhoedd yn cyd-fynd â Ffordd Gwynedd drwy sicrhau fod preswylwyr yn ganolog i'r holl weithgareddau.

3.9 Yn seiliedig ar y gwaith yma, penderfynwyd datblygu cynigion dan ddilyn methodoleg Adfywio Gymunedol yn Seiliedig ar Asedau. Sail y model yma yw miniogi a defnyddio cryfderau presennol yn y gymuned a'i arwain gan yr egwyddorion isod:

1. **Mae gan bawb gyfraniad i wneud:** Mae gan bob person mewn cymuned rywbeth i'w gyfrannu.
2. **Mae perthnasoedd yn adeiladu cymuned**: Rhaid i bobl fod yn gysylltiedig er mwyn i ddatblygiad cymunedol cynaliadwy ddigwydd.
3. **Rhoi dinasyddion yn y canol**: Dylid ystyried dinasyddion fel actorion - nid derbynwyr - wrth ddatblygu.
4. **Mae arweinwyr yn cynnwys eraill**: Datblygiad cymunedol sydd gryfaf pan fydd yn cynnwys sylfaen eang o weithredu cymunedol.
5. **Mae pobl yn poeni**: Mae angen herio'r syniad o "ddifaterwch" trwy wrando ar ddiddordebau pobl.

6. **Gwrandewch**: Dylai penderfyniadau ddod o sgyrsiau lle mae pobl yn cael eu clywed.
7. **Gofynnwch**: Mae gofyn am syniadau yn fwy cynaliadwy na rhoi atebion.
8. **Sefydliad tu chwith allan**: Aelodau'r gymuned leol sy'n rheoli.
9. **Mae sefydliadau'n gwasanaethu'r gymuned**: Dylai arweinwyr sefydliadol greu cyfleoedd i gynnwys aelodau o'r gymuned, yna "camu'n ôl".


3.10 Yn anffodus, fe ddaeth yn amlwg byddai cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i ddylanwadu ar y ffyrdd y gellir eu defnyddio i ymgysylltu'n gymunedol am beth amser eto.

## 4. RHAGLEN AR GYFER DATBLYGU CYNLLUNIAU ADFYWIO LLEOL

4.1 Yn seiliedig at waith rhagbaratoi o siapio'r Fframwaith Adfywio arfaethedig, datblygwyd rhaglen ar gyfer paratoi cynlluniau adfywio ar gyfer 13 o ardaloedd lleol.

4.2 Wrth ddatblygu'r rhaglen, rhoddwyd sylw penodol i'r fethodoleg Adfywio Gymunedol yn Seiliedig ar Asedau. Yn ei hanfod, mae'r Rhaglen yn cynnwys saith cam, o fewn tair prif gyfnod, sef

- Cyfnod 1 - Gosod y sylfeini ar gyfer cyd-gynhyrchu cynllun adfywio ardal (camau 1-3)
- Cyfnod 2 – Datblygu'r cynllun (camau 4-5)
- Cyfnod 3 – Alinio'r adnoddau ar gyfer cyflawni'r cynllun (camau 6-7)




*Ffigwr 1 : Prif Gamau'r Rhaglen*

4.3 Gellir crynhoi prif agweddau o'r Rhaglen fel a ganlyn:

| Camau | | <u>Amserlen</u> |
|---|---|---|
| | *CYFNOD 1: GOSOD Y SYLFEINI* | |
| 1. | ***Datblygu'r Waelodlin***<br>Datganiadau Ardal wedi eu paratoi, yn crynhoi data gwaelodlin ar ffurf ffeithluniau sy'n hawdd eu deall. | Ebrill 2021 – Awst 2021 |
| 2. | **Gweithgarwch Ymgysylltu Cychwynnol**<br>Deialog gychwynnol gyda gyda Aelodau, Cyngorhau Tref / Chymuned a grwpiau cymunedol sydd yn weithredol yn yr ardaloedd. | Medi 2021 – Tachwedd 2021 |
| 3. | **Datblygu rhestr gynhwysfawr o randdeiliaid yr ardal**<br>Mapio holl randdeiliaid yr ardal, gan baratoi ar gyfer Cyfnod 2 o'r rhaglen. | Medi 2021 – Rhagfyr 2021 |
| | *CYFNOD 2: DATBLYGU'R CYNLLUN* | |
| 4. | **Ymgysylltu Manwl** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwaith ymgysylltu cyhoeddus a chynhwysfawr yn cynnwys seminarau agored, grwpiau ffocws, ymgynghori ar lein a sesiynau galw i mewn (os yn bosib). | Chwefror 2022 - Mehefin 2022* |
| 5. | **Datblygu Matrics sefydliadau a phartneriaid gweithredol**<br>Ystyried rolau, cyfraniadau gweithredol a chyfrifoldebau wahanol sefydliadau a grwpiau wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol. | Chwefror 2022 – Mehefin 2022 |
| | *CYFNOD 3: ALINIO'R ADNODDAU AR GYFER CYFLAWNI* | |
| 6. | **Mapio'r Adnoddau**<br>Mae hyn yn cyfeirio at gasglu gwybodaeth gan sefydliadau a chyllidwyr am adnoddau ar gyfer gyflawni amcanion y cynlluniau adfywio lleol. Bydd sgyrsiau rhanddeiliaid a gweithdai gyda phartneriaid ehangach yn rhan pwysig o'r cam yma. | Mai 2022 ymlaen |
| 7. | **Adnabod yr opsiynau er mwyn alinio'r cynllun gyda chyfleoedd ariannu**<br>Yn ystod y cam yma, rhoddir pwyslais ar geisio sicrhau fod nodau a thasgau'r Cynllun Adfywio yn cyd-fynd a chyfloed ariannu. | Mehefin 2022 ymlaen |
| | **Gynlluniau Gweithredu wedi eu paratoi**<br>Cynlluniau Gweithredu wedi eu paratoi ar gyfer 13 ardal adfywio leol, yn ymgorffori blaenoriaethau lleol a gweithgareddau Cyngor Gwynedd, partneriaid sirol a sefydliadau lleol | Gorffennaf 2022 ymlaen |

4.4 Rhagwelir y bydd angen cwblhau'r camau uchod er mwyn paratoi Cynllun Gweithredu ar gyfer pob un o'r 13 ardal. Mae'n bosib y bydd peth amrywiaeth rhwng ardaloedd gan adlewyrchu nodweddion lleol.

## 5. DIWEDDARIAD AR Y SEFYLLFA BRESENNOL

5.1 Yn ystod cyfnod 2021/22, mae gwaith wedi bwrw ymlaen gyda'r rhaglen arfaethedig er gwaethaf anawsterau ac ansicrwydd Covid-19. Rydym ar fin cwblhau Cyfnod 1 (Gosod y Sylfeini) o'r rhaglen, ac mae crynodeb o'r camau wedi eu nodi isod

<u>Cam 1: Datblygu'r Waelodlin</u>

5.2 Fel rhan o adroddiad Ymgynghorwyr Burum, gwnaethpwyd gwaith er ystyried pa wybodaeth a data oedd ar gael er mwyn darparu gwybodaeth am sefyllfa economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardaloedd lleol.

5.3 Yn gyffredinol, mae nifer o ffynonellau data safonol a chyfredol yn cael eu cyhoeddi ar lefel sirol. Er mwyn casglu data am yr ardaloedd lleol, roedd her o geisio adnabod ffynonellau data ar lefel Ardaloedd Uwch Gynnych Haen Is (LSOAs) neu gyffelyb. Er bod sawl ffynhonnell data wedi eu hadnabod, a data wedi ei gasglu, dylid nodi fod rhai o'r ffynonellau data yn debygol o fod wedi dyddio - gan gynnwys Cyfrifiad 2011.

5.4 Gyda chefnogaeth Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Cyngor, fe baratowyd Datganiad Ardal ar gyfer pob un o'r 13 ardal gan ddefnyddio'r data oedd ar gael. O ran cyflwyno'r wybodaeth, defnyddiwyd amcanion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 er mwyn adnabod prif themâu. Hefyd, ymgorfforwyd data cymharol ar gyfer cyfartaledd Gwynedd a Chymru os yn berthnasol.

5.5 Mae enghreifft o Ddatganiadau Ardal wedi ei cynnwys fel Atodiad A er gwybodaeth. Paratowyd Datganiad o'r fath ar gyfer pob un o'r ardaloedd, a fydd yn cael eu cynnwys o fewn y platform digidol sy'n cael ei baratoi ar gyfer yr ymgysylltu cyhoeddus.

5.6 Roedd dau ddiben i'r Datganiadau Ardal mewn gwirionedd. Yn gyntaf, oedd cynnig crynodeb o nodweddion yr ardal yn seiliedig ar ddata. Yn ail, byddai'n cynnig cyd-destun ar gyfer trafodaethau cychwynnol gyda chymunedau lleol o ran ceisio adnabod prif faterion a blaenoriaethau lleol.

Cam 2 : Gweithgaredd Ymgysylltu Cychwynnol (Gwedd 1)

5.7 Bwriad y cam yma oedd cynnal sgyrsiau cychwynnol gydag Aelodau, Cynghorau Tref / Chymuned a grwpiau cymunedol blaengar i'w holi am gryfderau, blaenoriaethau a chyfleoedd yn eu cymunedau. O ran adnabod materion a blaenoriaethau lleol, credir fod angen rhoi ystyriaeth lawn i farn, profiadau a theimladau trigolion lleol.

5.8 Er mwyn hwyluso a chysoni sgyrsiau cychwynnol, gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried y cwestiynau canlynol:

1. *Yn gyffredinol, sut ydych chi'n teimlo am eich fel lle i fyw ar hyn o bryd:*
   a. *Beth sy'n dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)*
   b. *Beth sydd ddim mor dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)*

2. *Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn yr ardal ddelfrydol. Beth fyddai wedi newid er mwyn i hyn ddigwydd? (adnabod 3-5 maes blaenoriaeth). Wrth ddod i'ch casgliad, mae croeso i chi ystyried yr ystadegau a'r penawdau yn y llyfryn electroneg 'Datganiad Ardal' sydd wedi ei atodi)*

3. *Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?*

4. *Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol arall neu berthnasol sydd wedi digwydd?*

Cwestiynnau Gwaith Ymgysylltu Cychwynol 'Ardal Ni' (2021)

5.9 Trefnwyd gwaith ymgysylltu cychwynnol bennaf drwy'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau, Adran Economi a Chymuned gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae'r dulliau o dderbyn adborth a sylwadau gan sefydliadau lleol wedi bod yn amrywiol - boed yn gyfarfodydd llawn, yn gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr wedi eu henwebu, yn ymatebion ysgrifenedig. Er hynny, mae'r holl sylwadau ac ymatebion yn cael eu mewnbynnu i fas data "Ardal Ni 2035".

5.10 Mae'r tabl isod yn dangos nifer o ymatebion a dderbyniwyd fesul ardal fel rhan o'r trafodaethau cychwynnol.

| Ardal Adfywio Leol | Nifer |
|---|---|
| Dalgylch Bangor | 13 |
| Bro Ogwen | 10 |
| Dalgylch Caernarfon | 8 |
| Bro Peris | 23 |
| Bro Lleu / Nantlle | 15 |
| Ardal Llyn | 18 |
| Dalgylch Pwllheli | 14 |
| Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth | 7 |
| Bro Ffestiniog | 10 |
| Bro Ardudwy | 14 |
| Dalgylch Bala Penllyn | 7 |
| Bro Dysynni | 10 |
| Dalgylch Dolgellau | 9 |
| **Cyfanswm** | **158** |

5.11 Dylid nodi fod y trefniadau wedi amrywio o ardal i ardal. Gan mai gwaith ymgysylltu cychwynnol oedd y bwriad, rhagwelwyd yn wreiddiol mai nifer cyfyng o ymatebion a fyddai yn cael eu derbyn, ond bod gryn ddiddordeb wedi ei ddangos.

5.12 Mae'r holl ymatebion bellach wedi eu cofnodi a'u dadansoddi, ac adroddiad o'r canlyniadau wedi ei baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal yn unigol.

5.13 Mae enghreifftiau cryno o'r adroddiadau hyn wedi ei chynnwys fel Atodiad B er gwybodaeth.

5.14 Er bod yr adroddiadau hyn yn seiliedig ar drafodaethau cychwynnol yn unig, mae'r ymarferiad wedi amlygu pwysigrwydd agweddau a nodweddion lleol.

5.15 Er hynny, gwelir hefyd fod rhai materion yn codi mewn nifer o'r ardaloedd, ac mae'r tabl isod yn cynnig rhai enghreifftiau

| | |
|---|---|
| "Beth sy'n dda am yr ardal | *Nifer o ardaloedd wedi amlygu materion megis*<br>• *Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol*<br>• *Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol*<br>• *Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant*<br>• *Mwynderau a chyfleusterau fel siopau, caffis, bwytai*<br>• *Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol* |
| "Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?" | *Nifer o ardaloedd wedi amlygu materion megis*<br>• *Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser*<br>• *Diffyg tai sy'n fforddiadwy i bobl leol*<br>• *Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws*<br>• *Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal* |

| | |
|---|---|
| | • *Pryderon am ddarpariaeth iechyd* |
| “Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn y lle delfrydol. Beth fyddai wedi newid er mwyn hyn ddigwydd?” | *Nifer o ardaloedd wedi amlygu materion megis*<br>• *Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol*<br>• *Ardal fwy gwyrdd a chynlluniau arbed yr amgylchedd*<br>• *Creu gwaith a swyddi gwerth uchel*<br>• *Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol*<br>• *Rhagor o adnoddau iechyd, gofal a llesiant* |

5.16 Bydd y wybodaeth a’r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y gwaith cychwynnol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer camau nesaf o’r rhaglen.

Cyfleoedd Ymgysylltu Ehangach

5.17 Tra’n cynllunio ar gyfer yr gwaith ymgysylltu cychwynnol, daeth hefyd yn amlwg bod nifer o Adrannau / Gwasanaethau ar draws y Cyngor yn paratoi ar gyfer gwahanol ymgyrchoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod 2021/2 a 2022/3.

5.18 O ganlyniad mae’r gwaith ymgysylltu’r Fframwaith Adfywio wedi ei gynllunio fel bydd modd cyd-blethu gwahanol ffrydiau ymgysylltu o dan faner “Ardal Ni 2035” / Dweud Eich Dweud Gwynedd.

5.19 Yn wir, mae gwybodaeth sydd wedi ei dderbyn o’r gwaith hyd yma eisoes wedi ei defnyddio fel rhan o adolygiad asesiadau llesiant (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus), a’u defnyddio fel rhan o’r Cynllun Cymunedau Glan a Thaclus. Mae'r wybodaeth hefyd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o waith paratoi Arolwg Anghenion Tai Lleol (Adran Tai ac Eiddo) ac Asesiad Anghenion Poblogaeth (Adran Oedolion).

## 6 CAMAU NESAF

6.1 Yn dilyn cwblhau Cyfnod 1 (Gosod y Sylfeini) o’r rhaglen ar gyfer datblygu cynlluniau adfywio lleol, byddwn yn symud ymlaen i Gyfnod 2 (Datblygu’r Cynlluniau). Bydd hyn yn cynnwys gwaith ymgysylltu eang a chyhoeddus i geisio barn gymunedau ar flaenoriaethau lleol.

6.2 Mae gwaith paratoi manwl eisoes ar waith gyda chefnogaeth Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Cyngor. Bwriedir datblygu platform digidol newydd a phwrpasol ar gyfer y gwaith ymgysylltu sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Yn ogystal â’r fframwaith adfywio, bydd modd defnyddio’r platform ar gyfer nifer o ymgyrchoedd ymgysylltu eraill fydd yn cael eu cynnal gan y Cyngor.

6.3 Mae’r platfform digidol sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd wedi ei gynllunio gan ystyried yr ardaloedd adfywio lleol, ac yn ymgorffori agweddau megis

- Asesiadau Ardal unigol
- Adroddiadau yn deillio o’r trafodaethau cychwynnol
- Holiadur penodol i ardaloedd unigol (gan ddilyn methodoleg Cyfnod 1)

6.4 Bwriedir lansio ymarferiad a'r platform digidol erbyn canol fis Chwefror. Rhagwelir y byddwn yn oedi'r gwaith o hyrwyddo'r gwaith ymgysylltu yn ddiweddarach ym mis Mawrth i gyd-fynd hefo'r cyfnod cyn-etholiad.

6.5 Yn ystod cyfnod y pandemig, mae defnydd cynyddol wedi ei wneud o gyfarfodydd rhithiol a dulliau cyfathrebu digidol. Serch hynny, dylid cydnabod hefyd y gall agweddau digidol fod yn rhwystr i rai carfannau o'r boblogaeth. Fel rhan o'r trefniadau ymgysylltu rydym hefyd yn cynllunio ar gyfer ddulliau a chyfryngau ar gyfer annog a hwyluso cyfranogiad unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu at y gwaith. Fel rhan o'r holiaduron, byddwn yn gasglu gwybodaeth am gyfrangwyr er mwyn ein galluogi i baratoi asesiad cydraddoldeb llawn.

## 7. DIWEDDGLO AC ARGYMHELLION

7.1 Mae'r bwriad o baratoi cynlluniau adfywio ar gyfer ardaloedd Gwynedd wedi ei gynnwys o fewn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2018-23. Mae ymrwymiad i ymgysylltu gyda rhanddeiliad er mwyn deall sut mae cymunedau yn dymuno gweld eu hardaloedd yn datblygu yn y 10-15 mlynedd nesaf, ac adnabod blaenoriaethau lleol. Mae cyfle hefyd i sicrhau fod gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad Cynlluniau Adfywio Lleol.

7.2 Er gwaethaf amgylchiadau'r pandemig, roedd penderfyniad i fwrw ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd ar gyfer y sir.

7.3 Gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar gyfeiriad y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith arfaethedig, a'r camau sydd wedi eu gweithredu yn ystod Cyfnod 1 (Gosod y Sylfeini).

**ATODIADAU:**

Atodiad A Enghraifft o Ddatganiad Ardal
Atodiad B Adroddiadau Ardaloedd Adfywio Lleol (Crynodeb Drafft Cyfnod 1)